**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sian Gwenllian AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tachwedd 2017

Annwyl Sian Gwenllian

Fe ofynnodd y Prif Weinidog i mi ysgrifennu atoch chi yn dilyn eich cwestiwn atodol yn y Cynulliad ar 14 Tachwedd ynglŷn â Safonau'r Gymraeg a'r sector trafnidiaeth.

Roedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn 'Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer bil y Gymraeg' dros yr Haf yn cynnwys cynigion ar gyfer model diwygiedig o safonau. Rwy'n ystyried ymatebion i'r Papur Gwyn ar hyn o bryd ac fe fyddaf yn darparu diweddariad pellach ar y drefn safonau maes o law. Yn y cyfamser, byddaf yn anfon llythyr at gwmni trenau GWR yn nodi bod prynu trenau newydd wedi bod yn gyfle iddynt wella'r ddarpariaeth o wybodaeth yn Gymraeg ac yn mynegi siom nad ydynt wedi cymryd mantais o'r cyfle hwnnw, yn enwedig mewn cyfnod pan mae technoleg yn datblygu i wneud darparu gwybodaeth mewn mwy nag un iaith yn haws.

Pan fydd contract gwasanaethau rheilffordd newydd yn weithredol ar gyfer Cymru a'r Gororau yn Hydref 2018, rwy'n deall bydd y darparwr yn darparu gohebiaeth a chyhoeddiadau i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog ac yn cynnig gwasanaeth Gymraeg wrth ddelio ag ymholiadau. Bydd hefyd disgwyl i'r cwmni sicrhau bod canran o'i gweithwyr sydd mewn cyswllt â chwsmeriaid yn dysgu Cymraeg.

Cofion Gorau

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.